

## YOUNG, THOMAS (1507 - 1568), archesgob Caerefrog

**Enw:** Thomas Young  
**Dyddiad geni:** 1507  
**Dyddiad marw:** 1568  
**Priod:** Jane Young (née Kynaston)  
**Plentyn:** George Young  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** archesgob Caerefrog  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Glanmor Williams

Ganwyd yn Hodgeston, Sir Benfro. Aeth i Neuadd Broadgates (Coleg Pembroke heddiw), Rhydychen, lle y graddiodd B.A. 14 Mehefin 1529, M.A. ar 19 Mawrth 1553, B.C.L. ar 17 Chwefror 1538, a D.C.L. ar 13 Chwefror 1566, a daeth yn bennaeth ei neuadd, 1542-6. Gwnaed ef yn ficer Llanfihangel Castell Gwallter (Genau'r Glyn), Ceredigion, yn 1541, rheithor Hodgeston a Nash, 1542, prebendari Trallwng, 1545, a Thregaron, 1560. Wedi ei ddewis yn gantor Tyddewi yn 1542, daeth yno i breswyllo yn 1547, a bu'n un o arweinyddion y blaidd a wrthwynebodd **Ferrar**. Dywedir iddo ffoi i'r Cyfandir yn ystod teyrnasiad Mari, ond ni ellir olrhain ei alltudiaeth ymhlith cofnodion Cyfandirol. Yn 1559, bu'n un o ymwelwyr brenhinol esgobaethau Cymru, ac etholwyd ef yn esgob Tyddewi, 6 Rhagfyr 1559. Ar sail cymeradwyaeth Parker etholwyd ef yn archesgob Caerefrog, 27 Ionawr 1561. Fel archesgob a llywydd cyngor y Gogledd, bu'n flaenllaw yn hyrwyddo trefniant crefyddol Elisabeth, ond cafodd ei feirniadu am gamddefnyddio eiddo tymhorol ei esgobaeth. Bu farw 26 Mehefin 1568, a chladdwyd ef yn eglwys gadeiriol Caerefrog. Priododd (1) â merch **George Constantine**, a (2) â Jane Kynaston, Estwick, Staffs., a ddug iddo un mab, Syr George Young.

### Awdur

Syr Glanmor Williams

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

*Calendar of State Papers, Domestic Series a Calendar of State Papers relating to the negotiations between England and Spain*

Foxe, *Acts and Monuments of these latter and perilous days* (1563)

Garrett, *The Marian Exiles, a study of the origins of Elizabethan Puritanism* (1938)

Le Neve, *Fasti Ecclesiae Anglicanae* (1854)

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813-20)

E. Yardley, *Menevia Sacra. Arch. Camb.* (1927)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 90569096

Wikidata: Q1686862

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Williams, G., (1953). YOUNG, THOMAS (1507 - 1568), archesgob Caerefrog. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-YOUN-THO-1507>

frannu

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government